

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Ysbyty Gwynedd: Uned
Hergest: Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr**

6 – 8 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau.....	9
	Safonau Craidd.....	9
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	22
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	23
6.	Y Camau Nesaf.....	24
	Atodiad A	25

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Uned Hergest fin nos ar 6 Ionawr a thrwy'r dydd ar 7 ac 8 Ionawr 2016. Arolygwyd pob un o'r tair ward, Aneurin, Cynan a Taliesin, yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig.²

Mae Uned Hergest yn ysbyty iechyd meddwl arbenigol ar dir Ysbyty Gwynedd, a chaiff ei rhedeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau iechyd meddwl aciwt gan gynnwys gwasanaethau gofal dwys seiciatrig.

Mae wardiau Aneurin a Cynan yn wardiau aciwt ag 16 gwely. Mae Aneurin yn darparu llety ar gyfer cleifion benywaidd ac mae Cynan yn darparu llety ar gyfer cleifion gwrywaidd. Mae Taliesin yn uned gofal dwys seiciatrig gyda chwe gwely.

Yn ystod ein harolygiad, adolygwyd cofnodion cleifion, cyfwelwyd cleifion a staff, adolygwyd yr amgylchedd gofal, ac arsylwyd rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd tîm adolygu AGIC yn cynnwys un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleig, a dau aelod o staff AGIC.

² Mae uned gofal dwys seiciatrig yn darparu gofal a thriniaeth i bobl sy'n dioddef cyfnod mwyaf aciwt salwch meddwl. Mae uned gofal dwys seiciatrig yn amgylchedd ward diogel a digyffro.

4. Crynodeb

Roedd ein hymweliad ym mis Ionawr 2016 ag Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd yn ymweliad dilynol, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a nodwyd gan AGIC ym mis Mai 2014. Roedd yn bleser gennym nodi bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gennym yn ein hymweliad blaenorol yn ogystal â gwelliannau arall. Ymysg y rhain:

- Roedd yr ystafell gofal dwys wedi cael ei haddasu gyda chyfleuster ensuite newydd a oedd yn rhoi mwy o breifatrwydd ac urddas i gleifion sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn.
- Roedd gwybodaeth cleifion oedd yn cael ei harddangos ar y byrddau gwyn yn swyddfa'r nyrsys yn cael ei gorchuddio pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Roedd y gwelliant hwn yn galluogi gwybodaeth cleifion i gael ei guddio oddi wrth ymwelwyr a chleifion eraill.
- Roedd hyfforddiant gorfodol i staff wedi gwella'n sylweddol gyda mwy o gydymffuriad ledled yr holl wardiau. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod rhai meysydd oedd angen eu gwella a chânt eu rhestru yn adran Hyfforddiant yr adroddiad.
- Roedd system ar waith er mwyn i staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd ac wedi ei chofnodi, a chadarnhaodd y rhan fwyaf o staff bod hyn yn digwydd yn barhaus.
- Mae cyflawni'r Achrediad ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol (AIMS),³ a nodwyd yn 2015, yn dangos gwelliant yr uned.

³AIMS – Achrediad ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol. Rhaglen achredu sy'n seiliedig ar safonau gyda'r nod o wella ansawdd y gofal ar wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol yw AIMS. Mae'r achrediad yn sicrhau staff, defnyddwyr gwasanaeth,

- Roedd morâl y staff wedi gwella ac roedd yn dda ar y cyfan ar draws yr holl wardiau, er bod rhai rhwystredigaethau wedi cael eu nodi yr oedd angen i'r bwrdd iechyd eu hystyried a chymryd camau gweithredu mewn perthynas â nhw (gweler yr adran Llywodraethu).
- Roedd y cleifion a'r staff yn ganmoladwy iawn o'r gwasanaethau eiriolaeth, ac roedd y fforwm cleifion annibynnol yn fenter gadarnhaol iawn.
- Siaradodd y cleifion a'r staff yn gadarnhaol am ansawdd, dewis a'r dognau bwyd sy'n cael eu gweini yn yr uned.

Yn ogystal â'r gwelliannau a nodwyd gennym, gwnaethom hefyd nodi arferion da yr ydym wedi parhau i arsylwi arnynt yn ystod ein hymweliadau â'r uned. Yn benodol, gwnaethom nodi'r ffordd gadarnhaol y gwnaeth y staff ymgysylltu â'r broses arolygu a nifer yr achosion o ryngweithio cadarnhaol a welsom rhwng y staff a'r cleifion trwy gydol ein hymweliad.

Er gwaethaf yr arfer da a nodwyd, gwelsom fod lle sylweddol i wella mewn nifer o feysydd. Yn dilyn ein hymweliad, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd ynglŷn â phryderon a allant o bosibl beri perygl i ddiogelwch y cleifion. Pwrpas y llythyr hwn oedd ceisio sicrwydd gan y bwrdd iechyd am y camau gweithredu a gymerwyd ganddo, a'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i leihau'r peryglon. Nodir y meysydd yr ydym wedi nodi y mae angen eu gwella yn Atodiad A, ond mae crynodeb o'r prif broblemau'n cynnwys:

- Pwysau sylweddol ar welyau cleifion mewnol, ac roedd nifer y cleifion yn fwy na'r 16 o welyau oedd ar gael ar wardiau Aneurin a Cynan. Mae gwely 17 ac 18 yn cael eu darparu'n aml ar y wardiau i roi llety i gleifion ychwanegol. Gellid symud cleifion presennol o amgylch y wardiau

hefyd. Mae'r sefyllfa hon yn amharu ar y cleifion ac yn creu anawsterau i'r staff.

-
- Nodwyd problemau mewn perthynas â staffio, yn arbennig ar ward Aneurin. Gwnaethom nodi ar sawl achlysur mai dim ond un nyrs gofrestredig oedd ar y ward, ac weithiau'r nyrs honno oedd yn dal y blipiwr⁴ ar gyfer yr uned gyfan. Nodwyd nifer sylweddol o achlysuron lle nad oedd staff wedi bod yn cymryd egwyl oherwydd y baich gwaith heriol a natur y ward. Roedd rhai aelodau o staff wedi cronni amser dyledus sylweddol oherwydd prinderau staff a'r angen i weithio goramser.
- Roedd nifer o swyddi gwag ledled yr uned gan gynnwys staff meddygol, nyrsio a staff cymorth.
- Roedd asesiad risg clymiadau wedi nodi problemau diogelwch sylweddol ar draws y tair ward. Nodwyd nifer o beryglon clymiadau, a oedd yn cynnwys gwelyau, caefeydd drysau, a chordiau tynnu yn yr ystafelloedd ymolchi. Nodwyd bod gwelyau newydd wedi cael eu harchebu ym mis Awst 2015 ac nad oeddent wedi cyrraedd ar adeg ein hymweliad. Mae angen rhoi sylw i'r camau gweithredu a nodwyd yn yr asesiadau risg clymiadau, nad oes dyddiad arnynt, a'u cwblhau yn ddi-oed.
- Mae angen adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyniadau i'r uned i sicrhau y gellir gofalu am y cleifion yn briodol. Roedd nifer o gleifion wedi cael eu derbyn yn ddiweddar gyda salwch o fath mwy organaidd,

⁴ Mae'r blipiwr yn gwneud hynny at ddibenion cyfathrebu. Bydd y blipiwr yn cael ei ddefnyddio i gysylltu ag aelodau'r tîm ar gyfer galwadau argyfwng a brys ac i ymateb i dderbyniadau Adran 136.

e.e. dementia, ac mae angen gofal penodol ar y cleifion hyn i fodloni eu hanghenion.

- Cafodd sawl set o ddogfennau cleifion ei harchwilio ar ward Aneurin, a nodwyd rhai problemau sylweddol yn ymwneud â gofal a thriniaeth claf oedd wedi cwmpo'n ddiweddar.
- Nodwyd problemau amgylcheddol sydd angen sylw ac sy'n cynnwys tymheredd dŵr oedd yn rhy boeth mewn rhai ardaloedd ac yn rhy oer mewn ardaloedd eraill. Roedd ffenestri wedi cael eu sgrwio ynghau ac ni ellid eu hagor. Yn ogystal, nid oedd y systemau galw nyrsys yn bodloni'r canllawiau sydd wedi cael eu dogfennu a'u rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd ar y Llwybr Perygl Cwmpiadau.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae Uned Hergest yn adeilad hunangynhwysol ar dir Ysbyty Gwynedd. Mae gan yr uned ei mynedfa a'i derbynfa ei hun. Adeilad un llawr yw'r uned gyda thair ward weithredol a nifer o swyddfeydd i'r staff.

Wrth fynd i mewn i'r dderbynfa, mae drysau sy'n arwain at nifer o fannau a wardiau, gan gynnwys ward Taliesin, uned gofal dwys seiciatrig, a'r ddwy ward aciwt, sef Cynan i gleifion gwrywaidd ac Aneurin i gleifion benywaidd.

Mae ward Taliesin yn uned gofal dwys seiciatrig gyda chwe gwely i gleifion gwrywaidd a benywaidd. Mae'r ward dan glo ac mae mynediad iddi drwy system ffob i staff a system intercom i ymwelwyr. Roedd y ward yn darparu chwe ystafell wely sengl oedd yn cynnwys wardrob i gadw eiddo personol y cleifion. Roedd gan y cleifion ar y ward fynediad at doiled oedd yn benodol i'r rhywiau, a oedd yn cael eu rhannu, ac adnoddau cawod. Dim ond o'r tu allan y gellid gweithredu'r paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd lolfan cael ei rhannu ar ward Taliesin gyda digon o seddi i nifer y cleifion y gall y ward roi llety iddynt. Roedd teledu wedi ei osod ar y wal ac roedd rhywfaint o lyfrau ar y sil ffenestr. Roedd dau fwrdd yn y lolfan a rhai lluniau ar y wal. Nid oedd gan ward Taliesin unrhyw lolfeydd ar gyfer un rhyw yn unig.

Roedd un bwrdd a phedair cadair yn yr ystafell fwyta ar adeg ein hymweliad, nad oedd yn ddigon i'r holl gleifion fwyta gyda'i gilydd, ond roedd nifer o gadeiriau esmwyth yn yr ystafell.

Roedd yn bleser gennym nodi, yn dilyn ein hymweliadau blaenorol, bod yr ystafell gofal dwys wedi cael ei haddasu a bod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ystafell, a oedd yn cynnwys cyfleuster en-suite ar wahân. Roedd cloc hefyd yn weladwy er mwyn i'r cleifion wybod faint o'r gloch oedd hi pan oeddent yn yr ystafell hon.

Roedd gan y cleifion fynediad at ardal yn yr awyr agored. Roedd yr ardd yn gaeedig a dim ond cleifion ward Taliesin oedd yn cael ei defnyddio. Roedd seddi yn yr ardd ac ardaloedd gyda phlanhigion a oedd yn gwneud yr ardal yn fwy dymunol.

Roedd ffôn talu mewn man agored nad oedd yn rhoi preifatrwydd i unrhyw un oedd yn ei ddefnyddio.

Nid oedd yr holl glychau galw am gymorth yn yr ystafelloedd gwely ac mewn mannau eraill i'r cleifion o fewn cyrraedd hawdd iddynt.

Roedd amgylchedd y ward yn ddigonol i uned gofal dwys seiciatrig ac roedd yn darparu ardaloedd digyffro, sydd eu hangen ar y ward hon.

Roedd wardiau Aneurin (benywod) a Cynan (gwrywod) yn union yr un fath â'i gilydd o ran amgylchedd. Roedd y ddwy ohonynt yn wardiau 16 gwely gyda chymysgedd o ystafelloedd gwely sengl ac ystafelloedd cysgu â sawl gwely. Roedd pob ward yn rhannu cyfleusterau ystafell ymolchi, cawod a thoiledau. Gwnaethom nodi bod angen diweddarau rhai arwyddion ar y ward gan fod arwyddion ar ystafelloedd ymolchi'n nodi ardaloedd i wrywod neu fenywod yn hytrach na bod yn benodol i'r rhyw oedd yn derbyn llety ar y ward.

Roedd cleifion yn yr ystafelloedd gwely sengl ar wardiau Aneurin a Cynan yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond roedd staff yn gallu eu hagor pe bai angen. Nid oedd cloeau ar ddrysau'r ystafelloedd cysgu gyda sawl gwely. Dim ond o'r tu allan y gellid gweithredu'r paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely. Felly, nid oedd cleifion yn gallu rheoli'r panel arsylwi ar gyfer gweithgareddau dyddiol pwysig fel dadwisgo.

Ar ward Aneurin, gwnaethom nodi bod dau far o sebon yn cael eu storio ar ochr y baddon yn yr ystafell ymolchi, a allai beri problem o ran rheoli heintiau. Yn yr ystafell gawod, roedd nifer o eitemau ymolchi'n cael eu storio ar y gwresogydd, gan gynnwys siampŵ, sebon cawod a ffresnydd aer. Nid oedd yr eitemau'n addas i gael eu gadael yn yr ystafell oherwydd y niwed y gallant eu beri i glaf heb oruchwyliaeth, yn arbennig pe na bai drws yr ystafell ymolchi ar glo. Roedd marciau llosgi ar lawr yr ystafell gawod yn dilyn digwyddiad diweddar, ac mae angen ei lanhau neu mae angen gosod llawr newydd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd tymheredd y dŵr yn y baddon ar ward Aneurin yn boeth iawn ac roedd y dŵr yn yr ystafell ar ward Cynan yn rhedeg yn oer. Nid oedd tymheredd y dŵr yn cael ei gofnodi'n rheolaidd gan y staff i sicrhau bod dŵr o dymheredd priodol ar gael. Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom ofyn am dystiolaeth bod tymheredd y dŵr yn cael ei gofnodi'n rheolaidd ond ni ddarparwyd unrhyw ddogfennau ar ein cyfer.

Dywedodd y staff ar bob un o'r wardiau y gallai rhai ffenestri chwifio ar agor a chau yn glep os oedd yn dywydd gwyntog. Roedd hyn oherwydd y diffyg caefeydd ar y ffenestri, ac er mwyn goresgyn y broblem hon roedd ffenestri ar rai wardiau wedi cael eu sgriwio ynghau. Mewn ystafell gysgu sawl gwely ar ward Aneurin, roedd pob un o'r tair ffenestr wedi cael eu sgriwio ynghau ac ni ellid eu hagor i awyru'r ystafell. Yn ogystal, roedd y ffenestri y gellid eu hagor ar y ward yn peri perygl clymiadau posibl.

Gwnaethom nodi nifer o glychau galw nyrsys mewn ystafelloedd, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely, nad oeddent wedi cael eu gosod mewn man cyfleus. Mewn nifer o ystafelloedd ymolchi, roedd y gloch alw gyferbyn â'r toiled. Felly pe byddai claf angen cymorth, byddai'n anodd iddo fynd at y system galw nyrsys. Yn ogystal, un system galw nyrsys oedd ar gael ar gyfer tri neu bedwar o gleifion mewn ystafelloedd cysgu sawl gwely. Mae angen adolygu mynediad y cleifion at y clychau galw gan ei fod yn mynd yn groes i'r cyfarwyddyd a ysgrifennir yn y ddogfen 'Llwybr Perygl Cwmpïadau', sy'n nodi'n glir bod rhaid i glychau galw fod o fewn golwg a chyrraedd y cleifion bob amser.

Gwnaethom nodi nifer o risgiau clymiadau trwy'r holl wardiau, yn arbennig gwelyau, caefeydd drysau, a chordiau tynnu yn yr ystafelloedd ymolchi. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn unol â'r asesiadau risg clymiadau a gynhaliwyd, nad ydynt wedi eu dyddio.

Roedd lluniau ar walïau'r coridorau yn wardiau Aneurin a Cynan, ac roedd hysbysfyrddau ar y ddwy ward yn dangos ystod dda o wybodaeth a thaflenni yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd y lolfeydd ar y ddwy ward yn darparu cadeiriau esmwyth, setïau teledu a byrddau. Ar adeg ein hymweliad, roedd y lolfa ar ward Aneurin yn cael ei defnyddio gan nifer o gleifion oedd yn gwau ac un claf oedd yn darllen. Roedd pos ar y bwrdd oedd wedi cael ei ddechrau gan glaf, ac roedd gemau a llyfrau ar gael ar y silffoedd llyfrau.

Roedd gan y ddwy ward eu gerddi eu hunain a oedd yn fach ond wedi eu tirlunio.

Roedd ystafell adran 136 ar gael yn uned Hergest, a oedd yn darparu adnoddau digonol i unigolion oedd yn ei defnyddio.

Argymhellion

Mae angen gwirio a monitro tymheredd y dŵr ar draws pob ward i sicrhau bod tymheredd diogel a chyson yn cael ei gynnal. Roedd hyn o bryder arbennig yn y baddon ar ward Aneurin.

Mae angen adolygu pob ffenestr ledled yr uned, yn arbennig y ffenestri yn ystafelloedd gwely ac ardaloedd y cleifion, i sicrhau y gellir eu hagar a'u cau yn briodol ac nad ydynt yn achos risg clymiadau.

Mae angen diweddarau'r arwyddion ledled yr holl wardiau i sicrhau eu bod yn briodol i'r grŵp cleifion.

Mae angen adolygu mynediad y cleifion at y clychau galw gan ei fod yn gwbl groes i'r ddogfen Llwybr Cwypmpiadau, ac mewn un ystafell gysgu sawl gwely dim ond un gloch oedd ar gyfer hyd at bedwar o gleifion.

Mae angen adolygu'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr asesiadau risg clymiadau, ac mae angen rhoi sylw iddynt yn ddi-oed.

Diogelwch

Dangosodd trafodaethau â chleifion fod y mwyafrif y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo'n ddiogel yn Uned Hergest. Cawsom enghreifftiau gan ddau glaf, a ddywedodd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel, o gleifion eraill yn gallu bod yn dreisgar a phryderon ynghylch pwy oedd yn gallu mynd i mewn i'r ystafell gysgu sawl gwely gan nad oeddent yn gallu cloi'r drws. Ni nododd mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw unrhyw broblemau diogelwch, ond fe wnaeth rhai ohonynt nodi peryglon cwypmpiadau posibl yn yr ystafelloedd ymolchi a chyda gwelyau. Roedd y staff wedi lleihau'r peryglon hyn trwy gloi drws yr ystafell ymolchi fel bod rhaid i gleifion ofyn i gael ei defnyddio, ond nid oedd y drws ar ystafell ymolchi ward Aneurin wedi ei gloi ar noswaith ein harolygiad.

Gwnaethom nodi problemau mewn perthynas â staffio, yn arbennig ar ward Aneurin. Roedd sawl achlysur pan nad oedd ond un nyrs gofrestedig ar y ward a'r nyrs honno oedd yn dal y blipiwr hefyd. Felly, pe byddai'n ymdrin â galwad y blipiwr, byddai ei ward wedi cael ei gadael heb nyrs neu byddai wedi gorfod benthyg nyrs gofrestedig arall o ward wahanol. Gwnaethom hefyd nodi nifer sylweddol o achlysuron pan nad oedd y staff yn cymryd egwyl, ac o ganlyniad roedd rhai aelodau o staff wedi cronni cyfanswm sylweddol o amser dyledus. Mae angen adolygu'r meysydd hyn i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd diffyg gwelyau yn amlwg yn broblem ar wardiau Aneurin a Cynan. Roedd gwelyau ychwanegol yn cael eu rhoi ar y wardiau'n aml i roi lle i gleifion ychwanegol. Nid oedd digon o welyau ar ward Aneurin ar adeg ein hymweliad. Roedd un claf yn yr ysbyty cyffredinol yn derbyn gofal a thriniaeth am glun wedi torri. Roedd ei wely wedi cael ei roi i glaf oedd newydd ei dderbyn, a phe bai'r claf yn dychwelyd i'r ward byddai angen gwely ychwanegol.

Yn ogystal â'r uchod, roedd nifer o achlysuron pan oedd yr efydd ar alwad wedi dweud wrth y staff yn Hergest i osod gwelyau ychwanegol ar gyfer derbyniadau newydd. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at dderbyniadau amhriodol, a chafodd un claf gwrywaidd ei dderbyn i ward i gleifion benywaidd. Nid oedd y staff ar alwad bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan uned Hergest, ac mae angen adolygu hyn a'i newid i sicrhau bod staff ar alwad yn gwybod am y gwasanaeth a, ble y bo

angen hynny, yn cael cyngor penodol gan y staff nyrsio yn yr uned i sicrhau bod derbyniadau'n addas.

Nodwyd nifer o bwyntiau clymu posibl ledled y wardiau, yn benodol gwelyau, caefeydd drysau, a chordiau tynnu yn yr ystafelloedd ymolchi. Roedd yn bleser gennym nodi bod gwelyau newydd wedi cael eu harchebu ym mis Awst 2015; fodd bynnag, nid oeddent wedi cyrraedd ar adeg ein hymweliad. Roedd staff hefyd wedi rhoi mesurau ar waith i leihau risgiau yn ystafelloedd ymolchi'r cleifion. Roedd angen adolygu pob ardal a gweithredu yn unol â'r asesiadau risg clymiadau.

Gwnaethom nodi yn ystod ein hymweliad gyda'r nos nad oedd yr holl staff yn gwisgo larymau personol ar wardiau Aneurin a Cynan, er bod larymau'n cael eu rhoi i ymwelwyr. Mae'n bwysig bod diogelwch y staff yn cael ei adolygu a bod y staff yn gwisgo larymau personol bob amser.

Roedd yr wybodaeth ar y bwrdd cleifion ar ward Aneurin yn anodd ei deall. Ar adeg ein hymweliad, roedd y bwrdd yn rhestru 20 o gleifion yn ôl pob golwg, ond nid oedd 20 o gleifion ar y ward. Ar ôl rhywfaint o graffu, daethom i'r casgliad nad oedd tri o'r cleifion oedd ar y rhestr ar y ward ar y pryd. Roedd un claf ar ward Taliesin, un claf yn glaf mewnol yn yr ysbyty cyffredinol, a'r llall ar absenoldeb cymunedol hirdymor. Dylid gwneud rhai gwelliannau i'r hysbysfwrdd er mwyn osgoi unrhyw ddryswch mewn perthynas â niferoedd cywir y cleifion.

Lleisiodd rhai aelodau o staff bryderon ynglŷn â'r cymysgedd o gleifion, gan ddweud bod rhai cleifion yn cael eu derbyn nad oedd y staff yn teimlo eu bod yn addas ar gyfer yr uned. Nid yn unig mae hyn wedi arwain at rai digwyddiadau, cafwyd pryderon nad oedd adnoddau ar gael neu'n addas, yn arbennig ar gyfer cleifion oedd â dementia. Roedd rhai aelodau o staff hefyd yn teimlo efallai nad oedd ganddynt yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i nyrsio cleifion oedd â dementia.

Argymhellion

Mae angen rhoi sylw i'r problemau staffio a nodwyd, yn benodol i sicrhau bod y staff yn cymryd egwyl a bod yr amser a gronnir yn cael ei fonitro a'i reoli'n effeithiol. Mae angen adolygu dyraniad y blipiwr i sicrhau nad oes unrhyw wardiau'n cael eu gadael heb nyrs gofrestredig.

Rhaid rhoi sylw i'r diffyg gwelyau fel mater o frys.

Mae angen i'r staff sydd wedi eu haseinio i'r system ar alwad efydd gael gwell gwybodaeth am uned Hergest i sicrhau bod eu penderfyniadau'n briodol, er

mwyn sicrhau nad oes perygl i ddiogelwch y staff a'r cleifion oherwydd y penderfyniadau hynny.

Mae angen cynnal adolygiad o'r defnydd o larymau personol i sicrhau bod staff yn cael ac yn defnyddio larymau pan fyddant ar ddyletswydd.

Y tîm amlddisgyblaeth

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod eu tîm yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol a'u bod yn mynychu adolygiadau achos ar gyfer eu cleifion yn rheolaidd.

Mynychir cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth gan y disgyblaethau sydd wedi bod yn ymwneud â gofal y claf penodol hwnnw. Dywedodd staff wrthym fod yr adran seicoleg yn fwy hygyrch oherwydd ei bod wedi'i lleoli yn yr uned ac felly'n gallu gweld cleifion yn gyflym. Mae cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn digwydd yn rheolaidd, ond nododd rhai aelodau o staff fod timau cymunedol/gweithwyr allweddol yn ei chael yn anodd mynychu cyfarfodydd.

Roedd rhai aelodau o staff yn teimlo nad oedd eu safbwyntiau/barn yn cael eu gwerthfawrogi gan rai aelodau o'r tîm clinigol. Rhaid i bob aelod o staff deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a dylai holl aelodau'r tîm clinigol barchu barn broffesiynol.

Roedd cynifer â saith o ymgynghorwyr ar rai wardiau, oedd yn golygu llawer o rowndiau wardiau a phwysau ar staff nyrsio. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt amserlen rowndiau wardiau er mwyn darparu ar gyfer nifer yr ymgynghorwyr ar eu ward, ond y gallai rhai ymgynghorwyr gyrraedd yn ddirybudd, gan roi pwysau pellach ar y staff nyrsio unwaith eto.

Dywedodd y staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff yn rheolaidd, ond ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw gofnodion ar gael ar gyfer ward Aneurin. Cyflwynwyd rhai cofnodion o gyfarfodydd ar ôl ein sesiwn adborth. Mae'n hanfodol bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion yn nodi'r penderfyniadau a'r canlyniadau er mwyn galluogi staff i fod yn ymwybodol ohonynt. Roedd y staff yn cynnal cyfarfodydd trosglwyddo gofal rhwng pob sifft.

Argymhellion

Rhaid i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaeth deimlo fel rhan o'r tîm a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu o fewn y tîm.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan rai cleifion ystafelloedd gwely sengl ac roedd y lleill mewn ystafelloedd cysgu gyda thri neu bedwar gwely. Cadarnhaodd trafodaethau â chleifion a staff y byddai'n well gan bawb ystafelloedd gwely unigol. Defnyddir llenni i wahanu pob gwely yn yr ystafelloedd cysgu, ond nid yw llenni'n rhoi preifatrwydd i gleifion drafod materion personol gyda staff, ac roedd cleifion yn cwyno bod cleifion eraill yn amharu arnynt.

Gwnaed sylwadau am y diffyg lle ar y wardiau gan y cleifion a'r staff. Dywedodd cleifion wrthym fod y llefydd oedd ar gael i gwrdd â theulu a ffrindiau ar y ward yn gyfyng, a dywedodd y staff nad oedd digon o le ar gyfer cyfarfodydd un i un gyda chleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu tywys o amgylch y ward pan gawsant eu derbyn, a gallai 50% o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau bod ganddynt nyrs benodedig.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas ac y byddent yn curo ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn dod i mewn. Dim ond o'r tu allan y gellid gweithredu'r paneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely, ac felly nid oedd cleifion yn gallu cau'r panel o'r tu fewn i'w hystafelloedd gwely er mwyn cael preifatrwydd.

Roedd cleifion yn gallu defnyddio ffonau i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd gan rai cleifion eu ffonau symudol eu hunain, ac roedd y lleill yn gallu defnyddio'r ffôn talu ar y ward. Ar adeg ein hymweliad, roedd un ffôn wedi torri ar ward Aneurin. Dim ond galwadau i mewn oedd yn cael eu derbyn ar y ffôn arall. Roedd y ffôn talu ar ward Taliesin yn y coridor ac nid oedd yn rhoi unrhyw breifatrwydd i'r unigolyn oedd yn ei ddefnyddio. Dywedodd staff wrthym y gallai cleifion ddefnyddio'r ffôn yn y swyddfa ar gais.

Roedd yn bleser gennym nodi ers ein hymweliadau blaenorol bod gwybodaeth cleifion oedd yn cael ei harddangos ar fyrddau gwyn yn swyddfeydd y nyrsys yn cael ei chuddio pan nad oedd yn cael ei defnyddio, gan amddiffyn gwybodaeth y cleifion.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd amserllenni gweithgareddau'n cael eu harddangos ar y wardiau a oedd yn cynnig ystod o weithgareddau rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Roedd ystod eang o adnoddau yn uned Hergest, gan gynnwys cegin therapi galwedigaethol, ystafell celf a chrefft, ac ystafell ar gyfer gweithgareddau. Roedd yr ystafell weithgareddau'n cynnwys gemau, llyfrau, tenis bwrdd, piano, cyfrifiaduron heb fynediad i'r rhyngwrdd, a melin draed at ddefnydd y cleifion.

Er gwaethaf yr adnoddau oedd ar gael, dywedodd mwyafrif y cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oedd digon o weithgareddau, a dim ond ychydig o gleifion a ddywedodd fod y staff wedi gofyn iddynt beth hoffent ei wneud. Dywedodd un claf wrthym ei fod yn cael y diwrnodiau'n hir iawn oherwydd y gweithgareddau cyfyngedig, ac nad oedd yr adnoddau'n cael eu defnyddio oherwydd bod angen i'r staff fod gyda'r cleifion.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff mai dim ond pan oedd staff ar gael roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r adnoddau uchod. Ar adeg ein hymweliad, roedd y defnydd o'r adnoddau'n gyfyngedig oherwydd nad oedd unrhyw gydgyssylltwyr gweithgareddau yn gweithio yno.

Disgrifiodd y staff therapi galwedigaethol eu proses asesu, sy'n dechrau gydag atgyfeiriad gan y ward neu'r tîm iechyd meddwl cymunedol. Mae staff therapi galwedigaethol yn cynnal asesiad sylfaenol gan ddefnyddio amrywiaeth o asesiadau safonedig ac asesiadau nad ydynt yn safonedig. Y canlyniad yw cynllun unigol ar gyfer y claf sy'n cael ei gofnodi a'i gadw yn eu cynllun gofal er mwyn i'r staff ei ddilyn.

Dywedodd staff therapi galwedigaethol wrthym eu bod yn rhedeg sesiynau grŵp a sesiynau unigol i gleifion a allai gynnwys coginio, siopa, defnyddio cludiant, ac ymweliadau â'u cartref. Yn ystod y tymor, ar ddwy noswaith yr wythnos, mae myfyrwyr yn trefnu gweithgareddau fel celf, tenis bwrdd, gwyllo ffilmiau, a cherddoriaeth. Ar y penwythnosau, roedd gweithgareddau, sydd wedi cynnwys teithiau i atyniadau lleol, yn cael eu trefnu gan staff y wardiau.

Mae cleifion nad oes ganddynt ganiatâd i gael absenoldeb Adran 17 yn fwy cyfyngedig yn eu dewis o weithgareddau. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gleifion anffurfiol.

Yn ystod ein hymweliad gyda'r nos, gwelsom grŵp o gleifion yn gwau a gwneud gwaith crochet, a gwnaethom arsylwi ar y rhyngweithio cadarnhaol rhwng y cleifion a'r staff.

Roedd cyfraniad penodol gan adran seicoleg yn yr uned, ond yn ystod ein hymweliad nid oeddem yn gallu cwrdd â nhw ar gyfer adborth penodol. Cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw raglenni pwysau, diet neu roi'r gorau i ysmegu'n cael eu cynnig i'r cleifion.

Os oedd angen mynediad at wasanaethau eraill ar y cleifion fel deintydd, optegydd a/neu bodiatrydd, byddai'r staff yn trefnu hyn. Roedd y staff yn cyflawni gwaith sgrinio iechyd corfforol cyffredinol.

Roedd posterï'n weladwy ar y wardiau yn hysbysebu eiriolaeth, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a gwasanaethau Hafal, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt. Roedd mwyafrif y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n gwybod sut i

wneud cwyn pe bai'r angen yn codi ac yn gwybod sut i gysylltu â'r eiriolwr. Dywedodd yr holl y staff y gwnaethom siarad â nhw pa mor dda oedd y gwasanaethau hyn a pha mor rheolaidd roeddent yn mynychu'r uned i roi cefnogaeth i'r cleifion. Mae cael gwasanaethau allanol ar gael sy'n gallu rhoi cymorth i gleifion gyda'u pryderon ac sy'n uchel eu parch gan y staff a'r cleifion yn arfer nodedig.

Yn ogystal â'r uchod, mae fforwm cleifion annibynnol, sy'n cael ei redeg gan Unllais, yn cynnal cyfarfodydd misol gyda chleifion. Gwahoddir cleifion o bob ward i fynychu'r cyfarfodydd i leisio unrhyw awgrymiadau a/neu bryderon. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu harddangos ar bob ward, ac mae angen i reolwyr y wardiau ymateb i unrhyw gamau gweithredu sy'n codi. Mae'r cyfarfodydd fforwm cleifion annibynnol hyn yn fenter gadarnhaol ac yn enghraifft o dryloywder ar ran uned Hergest mewn perthynas â gofal cleifion.

Argymhelliad

Mae angen penodi cydgysylltwyr gweithgareddau i sicrhau nad yw darpariaeth therapi galwedigaethol yn cael ei heffeithio mewn ffordd negyddol.

Gofal iechyd cyffredinol

Gwnaethom nodi nifer o broblemau yn ymwneud â'r Prosiect Eiddilwch y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd gormod o gleifion i nifer y gwelyau wedi'u cynllunio oedd ar gael.
- Nid oedd gan y cleifion fynediad at y system larwm galw nyrsys er gwaetha'r ffaith bod dogfen y bwrdd iechyd, 'Llwybr Risgiau Cwmpïadau', yn amlwg yn cymeradwyo'r defnydd o gloch alw o fewn golwg a chyrraedd cleifion bob amser.
- Mae angen datblygu grŵp o staff arbenigol oherwydd y cymysgedd cleifion amlwg ar y wardiau.
- Mae angen gwella hyfforddiant i ddarparu'n ddigonol ar gyfer y grŵp hwn o gleifion.
- Dylid ystyried derbyniadau hyblyg oherwydd y gallai rhai cleifion iau na 65 mlwydd oed fod angen y gwasanaeth.

Argymhellion

Rhaid rhoi sylw i'r meysydd a nodir ynghylch y prosiect Eiddilwch, yn arbennig darpariaeth y gwelyau sydd ar gael, staff arbenigol, hyfforddiant staff, a derbyniadau i gleifion iau na 65 mlwydd oed.

Bwyd a maetheg

Gwnaeth yr holl gleifion a staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y bwyd sy'n cael ei weini yn yr uned. Roedd pedwar pryd o fwyd y dydd yn cael eu cynnig i gleifion, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper.

Roedd y cleifion yn cael bwydlen gyda dewis o brydau bwyd. Roedd y dewis yn cynnwys dewis o bryd llysieuol. Roedd byrbrydau ar gael hefyd, gan gynnwys brechdanau a/neu datws pob.

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y dognau bwyd yn ddigonol a bod amrywiaeth da yn cael ei gynnig. Dywedodd staff wrthym eu bod yn darparu ar gyfer cleifion a chanddynt anghenion dietegol penodol a bod mynediad ar gael at ddietegwyr.

Os oedd angen diod neu fyrbryd ar glaf y tu allan i'r amser prydau neilltuedig, yna fe'i rhoddwyd iddynt. Roedd diodydd poeth ac oer ar gael yn ogystal ag amrywiaeth o ddewis o fyrbrydau, oedd yn cael eu cadw yng ngheginau'r ward. Roedd y cleifion yn cael dewis archebu tecawê ar ddydd Sadwrn os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd y cleifion yn cael eu pwyso'n rheolaidd fel rhan o'u gofal iechyd cyffredinol.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff, a gwelsom rai anghysondebau o ran yr wybodaeth cyflogaeth oedd yn y ffeiliau. Roedd rhestr wirio mewn un ffeil a oedd wedi cadarnhau bod yr holl wybodaeth cyn ac wedi cyflogaeth wedi cael ei chasglu, gan gynnwys swydd-ddisgrifiad, ffurflen gais, dau eirida, nodiadau cyfweliad, contract cyflogaeth, ac ymsefydlu. Fodd bynnag, nid oedd dim o'r wybodaeth hon yn y ffeil. Roedd ffeiliau eraill a adolygwyd yn cynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng a thystysgrifau addasrwydd ar gyfer y swydd, ond nid oedd yr wybodaeth hon mewn ffeiliau eraill. Mae angen gweithredu dull safonol ar gyfer yr holl ffeiliau staff, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn gyson ar gyfer pob penodiad.

Roeddem yn falch o nodi bod systemau ar waith i sicrhau bod yr holl gofrestrïadau proffesiynol yn gyfredol. Mae rheolwyr y wardiau'n gwirio

gwefannau i sicrhau cydymffurfiaid â chofrestriadau, ac mae'r system e-amserlennu yn rhybuddio staff y bydd angen adnewyddu cofrestriadau ychydig fisoedd ymlaen llaw.

Yn dilyn ein hymweliadau blaenorol, roedd system goruchwyllo staff llawer mwy cadarn ar waith, ac roedd goruchwyliaeth yn cael ei chofnodi'n dda. Cadarnhaodd trafodaethau gyda staff fod y rhan fwyaf ohonynt yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol yn rheolaidd, ac mae hynny'n cael ei gofnodi'n dda. Mae nifer o sesiynau goruchwyllo anffurfiol yn cael eu cynnal hefyd, a siaradodd y staff yn gadarnhaol amdanynt.

Roedd wyth o'r 10 ffeil staff a adolygwyd yn dangos eu bod wedi derbyn arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith i staff, ac roedd system yn cael ei defnyddio er mwyn casglu, cofnodi a monitro cynnydd pob aelod o staff. Fe wnaeth dadansoddiad o'r ystadegau hyfforddiant ar gyfer y tair ward dynnu sylw at fylchau sylweddol mewn cydymffurfiaeth. Roedd nifer o feysydd y mae angen eu gwella ac mae angen monitro'r rhain er mwyn gwella cydymffurfiaeth. Mae meysydd o'r fath yn cynnwys hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth o dan 30% ar wardiau Taliesin ac Aneurin. Roedd hyfforddiant iechyd a diogelwch hefyd dan 30% ar ward Aneurin a than 10% ar ward Cynan.

Roedd rhai swyddi gwag ledled yr uned y mae angen eu llenwi i sicrhau bod digon o staff. Gwnaethom nodi diffyg cydgysylltwyr gweithgareddau ledled yr uned, ac roedd hyn yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth therapi galwedigaethol oherwydd bod gormod o alw am eu hadnoddau. Mae angen recriwtio clerc i'r ward, oherwydd ar adeg ein hymweliad roedd un clerc yn cael ei rannu rhwng y tair ward. Yn ogystal, roedd nifer uchel o swyddi clinigydd cyfrifol yn dal heb eu llenwi. Roedd clinigwyr cyfrifol locwm yn llenwi swyddi dros dro. Mae angen adolygu staffio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn llenwi swyddi yn yr uned.

Dywedodd y staff wrthym fod morâl yn well ledled yr uned gyfan, ond siaradodd rhai aelodau o staff am eu rhwystredigaeth pan fydd problemau'n cymryd amser hir i'w datrys. Dywedwyd hefyd fod dynameg y staff hefyd yn effeithio ar forâl.

Dywedwyd wrthym gan aelodau o staff bod diffyg sesiynau ôl-drafodaeth/gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnal i staff yn dilyn digwyddiadau gyda chleifion, ac nad oedd hysbysiadau am ddigwyddiadau ar gael yn dilyn digwyddiad. Mae'n hollbwysig bod y maes hwn yn cael ei adolygu a bod staff yn mynychu sesiynau ôl-drafodaeth/gwersi a ddysgwyd i sicrhau bod arferion

da yn cael eu cyflawni'n barhaus a bod risgiau'n cael eu lliniaru cyn belled â phosibl.

Ers ein hymweliad blaenorol ym mis Mai 2014, mae Uned Hergest wedi hyrwyddo mentrau i ddatblygu staff. Felly roeddem yn falch o nodi bod yr uned wedi cyflawni AIMS.

Argymhellion

Mae angen gweithredu dull safonol ar gyfer yr holl ffeiliau staff, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn gyson ar gyfer pob penodiad.

Mae angen adolygu staffio a recriwtio ar gyfer rhai swyddi allweddol er mwyn sicrhau bod digon o staff yn llenwi swyddi yn yr uned.

Mae angen gwella morâl y staff, yn arbennig ar ward Taliesin, gyda phwyslais penodol ar yr amserlen ar gyfer datrys problemau a dymeg y staff.

Rhaid i sesiynau ôl-drafodaeth/gwersi a ddysgwyd fod yn rhan o'r cyfathrebu rhwng staff er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu hatgyfnerthu'n barhaus a bod risgiau'n cael eu lliniaru cyn belled â phosibl.

Llywodraethu

Mae nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer clinigwyr cyfrifol yn dal heb eu llenwi ledled Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Yn ystod y cyfarfod adborth, cawsom ein sicrhau bod y broblem hon yn cael sylw. Mae angen strategaeth recriwtio.

Fel y disgrifiwyd yn adran amgylchedd y ward, mae angen rhoi sylw i'r galw am welyau i gleifion mewnol fel mater o frys. Mae angen strategaeth rheoli gwelyau i fynd i'r afael â'r broblem. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod y staff sydd ar alwad efydd yn cael gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofynion gwasanaeth er mwyn sicrhau bod derbyniadau yn briodol.

Rhaid adolygu'r oedi o ran derbyn dodrefn newydd, gan gynnwys gwelyau newydd a oedd wedi cael eu harchebu ym mis Awst 2015. Mae'r cyfnod amser sydd wedi mynd heibio yn annerbyniol ac yn cael effaith ar problemau clymiadau.

Er gwaethaf y gwelliant ym morâl y staff trwy'r uned, roedd tystiolaeth bod morâl yn isel ar ward Taliesin. Cafodd dymeg y staff ei grybwyll fel ffactor allweddol. Mae angen cynnal adolygiad o'r problemau hyn.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r systemau a phrosesau llywodraethu ac archwilio er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gadarn a digonol yn cael ei chyflwyno i'r bwrdd iechyd.

Mae angen rhoi sylw i bob un o'r meysydd a nodwyd, yn benodol:

- Strategaeth recriwtio i lenwi'r nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer clinigwyr cyfrifol
- Strategaeth rheoli gwelyau i reoli'r galw am welyau i gleifion mewnol
- Mae angen sefydlu amserlen dderbyniol ar gyfer derbyn dodrefn newydd
- Adolygiad o'r problemau ynglŷn â morâl staff ar ward Taliesin a strategaeth i fynd i'r afael â nhw

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth chwe chlaf yn uned Hergest a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Roedd nodyn o berygl cwmpo ar gyfer un claf, ond nid oedd cynllun gofal ar waith i fynd i'r afael â'r perygl.
- Roedd y cofnodion arsylwi ar gyfer un claf a oedd wedi cwmpo ar goll, a methwyd â dod o hyd iddynt.
- Nid oedd dewis un claf i ddefnyddio cadair olwyn wedi cael asesiad risg, ac nid oedd cynllun gofal ar ei gyfer.
- Mae angen gwella'r defnydd o ddogfennau Mesur Iechyd Meddwl gan fod diffyg manylion yn y ffeiliau a adolygwyd gennym. O ganlyniad, mae angen rhoi hyfforddiant pellach ar waith ar gyfer y defnydd o'r Mesur.

Argymhelliad

Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ac ar waith ar gyfer cleifion, bod cofnodion arsylwi'n cael eu cynnal, a'u bod yn hygyrch. Mae angen gwella'r defnydd o ddogfennau Mesur Iechyd Meddwl.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri o'r cleifion a gedwir, sy'n derbyn gofal ar un o'r wardiau. Nodwyd y materion canlynol:

- Roedd angen diweddarau ffurflenni absenoldeb Adran 17 gan fod dyddiadau 'hyd at' wedi mynd heibio ac nid oedd yn hawdd deall y cofnodion absenoldeb.
- Nid oedd absenoldeb Adran 17 yn cael ei werthuso.
- Nid oedd dyddiadau ar y tudalennau cofnodi arsylwi.
- Roedd y ffeiliau a adolygwyd gennym yn dangos bod y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau a bod Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol wedi ymwneud â nhw. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth yn y ffeiliau neu'r archwiliadau ar waith a oedd yn cadarnhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hailadrodd.
- Nid oedd gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn derbyn adroddiadau gan reolwr yr ysbyty ar amser.
- Oherwydd nifer y meddygon locwm, rhaid i weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl wirio'n barhaus bod y meddyg yn glinigydd cymeradwy ac yn achrededig dan Adran 12.

Argymhellion

Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, yn arbennig i sicrhau bod ffurflenni absenoldeb Adran 17 a ffurflenni arsylwi'n cael eu cwblhau a'u gwerthuso, a bod adroddiadau rheolwr yr ysbyty'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno i weinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn brydlon. Mae angen i hawliau'r claf gael eu darllen, a dylid dangos tystiolaeth ohonynt yn unol â hynny, ac mae angen systemau i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn brydlon ar gyfer meddygon locwm i brofi eu statws Adran 12 fel clinigydd cymeradwy.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Uned Hergest yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar gynllun gwella'r bwrdd iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus o wasanaethau iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu:
Bwrdd Iechyd:
Ysbyty:
Dyddiad yr arolygiad:

Cynllun Gwella
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd, Uned Hergest
6 - 8 Ionawr 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1. Amgylchedd y ward				
Mae angen gwirio a monitro tymheredd y dŵr ar draws yr holl wardiau i sicrhau bod tymheredd diogel a chyson yn cael ei gynnal. Roedd hyn o bryder arbennig yn y baddon ar ward Aneurin.	1.1.1 Rhaid gwirio tymheredd pob baddon yn defnyddio thermomedr cyn i gleifion fynd i mewn i'r dŵr, yn seiliedig ar arfer gorau ledled y bwrdd iechyd.	1.1.1. Cadarnhawyd yng nghyfarfod yr uwch-nyrsys 11 Chwefror 2016 bod angen gwirio tymheredd dŵr yn defnyddio thermomedr ar bob ward, a dylid codi unrhyw broblemau ar unwaith gyda'r Tîm Ystadau.	Rheolwr Ardal; Metron	31 Mawrth 2016
		Mae pob dyfais thermostatig sydd wedi ei osod ar allfeydd dŵr yn cael ei wirio bob chwe mis i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn ac yn cael ei addasu yn unol â hynny gan Ystadau Gweithredol. Os yw wedi cael ei osod ar faddon, mae prawf dibynadwy hefyd yn cael ei gynnal i	Rheolwr Gweithrediadau Ystadau – Gorllewin	31 Mawrth 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		sicrhau bod y cyflenwad dŵr poeth yn cael ei ddiffodd os bydd y cyflenwad dŵr oer yn methu.		
	1.1.2 Arfer gorau'r bwrdd iechyd i gael ei nodi a chanllawiau clir i gael eu darparu i nyrsys y ward ar yr ystod tymheredd.	1.1.2 Rheolwr Ardal i drafod â Metron y Gwasanaethau Anabledd Dysgu a datblygu canllawiau.	Rheolwr Ardal	31 Mawrth 2016
1.2 Mae angen adolygu pob ffenestr ledled yr uned, yn arbennig y ffenestri yn ystafelloedd gwely ac ardaloedd y cleifion, i sicrhau y gellir eu hagor a'u cau yn briodol ac nad ydynt yn achos risg clymiadau.	1.2 Gweler 1.5.2	1.2 Mae'r risg hwn wedi'i nodi ar y Gofrestr Risg. Cafodd archwiliad allanol manwl ei gomisiynu trwy ymgynghorwyr allanol. Roedd y gwaith hwn yn diffinio'r meysydd o risg uchel, sydd yn ei dro wedi arwain at yr angen i gwblhau asesiad risg ar gyfer rheoli ardaloedd clinigol penodol. Cwblhawyd y gwaith hwn gan y timau clinigol iechyd meddwl ac anabledd dysgu.	Rheolwr Ardal Pennaeth Cyfalaf	I ddechrau 1 Mawrth 2016 ac yn rhedeg tan 31 Mawrth 2017. Dechrau ar 1 Mawrth a chwblhau erbyn mis Mehefin 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Mae'r Tîm Prosiect Gwrth-glymiadau wedi caffael Fframwaith Contractwyr ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymgymryd â'r gwaith prosiect, sydd i fod i ddechrau ar 1 Mawrth 2016.		
1.3 Mae angen diweddarau'r arwyddion ledled yr holl wardiau i sicrhau eu bod yn briodol i'r grŵp cleifion.	1.3 Nid yw adolygiad o arwyddion yn rhan o gynllun Ystadau ar hyn o bryd ar gyfer Hergest yn 2016-17 gan fod angen i'r adran wneud penderfyniad ynghylch y grŵp cleifion priodol ar gyfer yr uned, a fydd yn effeithio ar unrhyw arwyddion a ddefnyddir.	Bydd datrysiad dros dro yn cael ei gytuno rhwng y rheolwyr lleol ac Ystadau ar gyfer arwyddion.	Metron/Rheolwr Ardal/Cyfarwyddwr Ystadau	31 Mawrth 2016
1.4 Mae angen adolygu mynediad y cleifion at y clychau galw gan ei fod yn gwbl groes i'r ddogfen Llwybr Cwypmipiadau, ac mewn un ystafell gysgu sawl gwely dim ond un gloch oedd ar gyfer hyd at bedwar o gleifion.	1.4.1 Rhoddir larymau personol i gleifion sy'n cael eu hasesu i fod mewn perygl o gwympo i'w gwisgo ar eu garddyrnau. Mae'r rhain ar waith ac yn cael eu defnyddio.	1.4.1 Cwblhawyd	Metron	29 Chwefror 2016
	1.4.2 Bydd system ddiwifr ar gyfer galw nyrsys yn cael ei hymchwilio a bydd cynnig yn cael ei anfon at y Tîm Arwain Adrannol i'w ystyried.	1.4.2 Mae cynrychiolwyr Ystadau Gweithredol wedi cyfarfod â'r Metron i drafod manylion ardaloedd sy'n ddiffygiol. Bydd costau'n cael eu darparu gan y Grŵp Systemau Statig i	Rheolwr Gweithrediadau Ystadau – Gorllewin	31 Mawrth 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd lechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ddarparu estyniadau addas ar gyfer y system bresennol a fydd naill ai'n defnyddio gwifrau neu'n ddiwifr.		
	1.4.3 Mae synwryddion llawr hefyd wedi cael eu prynu a chawsant eu derbyn ar 11 Chwefror 2016 i'w gosod erbyn diwedd mis Chwefror 2016.	1.4.3 Wedi cael eu prynu ac wedi eu derbyn, yn aros i gael eu gosod.	Metron	29 Chwefror 2016
1.5 Mae angen adolygu'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr asesiadau risg clymiadau, ac mae angen rhoi sylw iddynt yn ddi-oed.	1.5.1 Prynu gwelyau gwrth-glymiadau.	1.5.1 Gwelyau gwrth-glymiadau newydd wedi cael eu caffael ac wedi eu derbyn – CWBLHAWYD.	Rheolwr Ardal	29 Chwefror 2016
	1.5.2 Adolygiad o'r gwaith sydd ei angen i gwblhau Prosiect Gwrth-glymiadau a nodi blaenoriaethau'r prosiect.	1.5.2 Mae gwaith helaeth sydd wedi ei wneud gan Ystadau mewn perthynas â risgiau clymiadau wedi cael ei adolygu'n ffurfiol gan yr is-grŵp Ystadau, ac mae'r gwaith wedi cael ei flaenoriaethu'n unol â'r Cynllun Prosiect Gwrth-glymiadau sydd yn dechrau ar 1 Mawrth 2016.	Pennaeth Cyfalaf	I ddechrau 1 Mawrth 2016 a'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2016
2. Diogelwch				
2.1 Mae angen rhoi sylw i'r problemau staffio a nodwyd, yn benodol i sicrhau bod y staff yn cymryd egwyl a bod yr	2.1.1 Rhoi Proses Aciwtedd Ward lechyd Meddwl Cenedlaethol (Cleifion Mewnol) ar waith a	2.1.1 Dechreuodd hyn ym mis Chwefror 2016. Disgwylir i'r canlyniadau	Rheolwr Ardal; Metron	31 Mawrth 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
amser a gronnir yn cael ei fonitro a'i reoli'n effeithiol. Mae angen adolygu dyraniad y blipiwr i sicrhau nad oes unrhyw wardiau'n cael eu gadael heb nyrs gofrestredig.	chyflwyno canlyniadau'r broses i'r Tîm Arwain Adrannol i arwain y gwaith o wneud penderfyniadau ar gyfer yr uned.	gael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Adrannol ym mis Mawrth 2016.		
	2.1.2 Yr adran i ddechrau adolygiad o'r cymysgedd sgiliau o fewn yr uned yn seiliedig ar ganlyniadau 2.1.1, gan dalu sylw arbennig at nifer y nyrsys iechyd meddwl cofrestredig sydd ar gael yn yr uned dros y cyfnod o 24 awr.	2.1.2 I ddechrau unwaith y bydd 2.1.1 wedi ei gwblhau.	Cyfarwyddwr Nyrsio; Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	30 Mehefin 2016
	2.1.3 Dylai'r Rheolwyr Adrannol gael system ar waith i fonitro e-amserlennu'n fanwl mewn perthynas â'r templed staffio gofynnol. Sicrhau bod y system e-amserlennu'n cael ei defnyddio i'r eithaf fel adnodd cynllunio a rheoli er mwyn sicrhau dibynadwyedd a bod digon o staff ar gael i gyflenwi ar draws yr uned.	2.1.3 Mae defnydd o'r system e-amserlennu'n cael ei adolygu gan y Tîm Arwain Adrannol ar hyn o bryd.	Rheolwr Dros Dro'r Cynllun Arbedion sy'n Rhyddhau Arian	31 Awst 2016
	2.1.4 Swyddogaeth yr uwch nyrs/y sawl sy'n dal y blipiwr yn ychwanegol at nifer staff sefydledig y ward, yn hytrach nag yn rhan o staff y ward.	2.1.4 Mae hyn eisoes ar waith ac nid yw'n digwydd ond mewn amgylchiadau eithriadol lle mae mesurau lliniarol yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r sefyllfa.	Rheolwr Ardal; Metron	Cwblhawyd
	2.1.5 Cronni oriau a defnyddio	2.1.5 Metron i ddarparu	Metron; Rheolwr	1 Ebrill 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	amser i ffwrdd yn lle tâl i gael eu rheoli dan bolisi presennol y bwrdd iechyd – archwiliadau i gael eu cynnal a'u dilyn gan ymyriad gan y rheolwyr ble y bo angen.	datganiad misol o sefyllfa amser i ffwrdd yn lle tâl i Reolwr Cyffredinol yr Adran o Ebrill 2016.	Cyffredinol yr Is-adran	
	2.1.6 Yr isadran i adolygu sut caiff sifftiau eu rheoli'n ymarferol a chyflwyno cynlluniau gwaith sifftiau ledled yr holl wardiau. Effeithiolrwydd cynlluniau gwaith sifft i gael ei fonitro trwy'r dull uwchgyfeirio dyddiol ac archwiliad ansawdd misol.	2.1.6 Cadarnhawyd yng nghyfarfod yr uwch-nyrsys ar 11 Chwefror 2016 bod cynlluniau gwaith sifft i gael eu defnyddio ar bob ward, ac y dylid uwchgyfeirio unrhyw newidiadau i'r cynllun gwaith oherwydd heriau neu bwysau at y Metron yn defnyddio'r dull uwchgyfeirio dyddiol.	Metron	1 Ebrill 2016
2.2 Rhaid rhoi sylw i'r diffyg gwelyau fel mater o frys.	2.2.1 Bydd y dull atgyfeirio dyddiol yn cael ei ddefnyddio ar unwaith ar gyfer unrhyw wely y mae angen amdano.	Mae'r dull yn cael ei ddefnyddio ar draws yr holl wardiau; i gael ei bwysleisio a'i gynnwys ym mhob un o gyfarfodydd yr uwch-nyrsys. Cytunwyd gan y Tîm Arwain Adrannol ar 15 Chwefror 2016 er mwyn sicrhau'r amgylchedd mwyaf diogel gyda lefelau staffio priodol yn y llety presennol, bydd Hergest	Rheolwr Ardal; Metron	1 Ebrill 2016 Cwblhawyd

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		yn gweithredu dwy ward 16 gwely (ac uned gofal dwys seiciatrïg).		
	2.2.2 Mae'r Tîm Arwain Is-adrannol wedi darparu canllawiau gweithredu terfynol ynghylch rheoli niferoedd terfynol gwelyau yn Uned Hergest (gweler uchod).	2.2.2 Gweler uchod.	Tîm Arwain Is-adrannol	Cwblhawyd
	2.2.3 Bydd y ddogfen canllawiau'n nodi canllawiau rheoli gwelyau i staff a rheolwyr mewn perthynas â briwiau pwyso ac uwchgyfeirio pan fydd angen.	Bydd Polisi Gweithredol Hergest yn cael ei adolygu a'i ddiwygio i sicrhau eglurder ar gyfer derbyniadau, gan gynnwys rheoli gwelyau.	Metron/Rheolwr Ardal	31 Mawrth 2016
	2.2.4 Er mwyn rheoli capasiti, bydd yr Is-adran yn datblygu a chynnal Bwrdd Rheoli Statws Gwely ledled y rhanbarth, a fydd ar gael i nyrsys dyletswydd, timau triniaeth gartref, metronau, a rheolwyr ar alwad.	2.2.4 Mae'r gwaith o reoli gwelyau a llif cleifion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Tîm Arwain Is-adrannol. Bydd system sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn y maes gofal iechyd corfforol aciwt ar gyfer llif cleifion yn cael ei hystyried a'i haddasu i'w defnyddio ym maes gofal iechyd meddwl.	Ymgynghorydd Rhaglen Dros Dro	31 Awst 2016
	2.2.5 Yr is-adran i ragnodi protocolau 'llif cleifion' system gyfan a'u defnyddio yn y gwasanaeth, gan gynnwys Gofal Iechyd Parhaus, Oedi wrth	Gweler 2.2.4.	Ymgynghorydd Rhaglen Dros Dro	31 Awst 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Drosglwyddo Gofal, a cherrig milltir cynllunio rhyddhau cleifion.			
2.3 Mae angen i'r staff sydd ar y system ar alwad efydd gael gwell gwybodaeth am Uned Hergest i sicrhau bod eu penderfyniadau'n briodol, er mwyn sicrhau nad oes perygl i ddiogelwch y staff a'r cleifion oherwydd y penderfyniadau hynny.	2.3 Mae'r Tîm Arwain Is-adrannol wedi darparu canllawiau gweithredol terfynol ar gyfer rheoli niferoedd terfynol gwelyau yn Uned Hergest. Bydd y ddogfen Polisi Gweithredol diwygiedig yn nodi canllawiau rheoli gwelyau i staff a rheolwyr mewn perthynas â briwiau pwyso ac uwchgyfeirio pan fydd angen.	Gweler 2.2.2 uchod.	Metron/Rheolwr Ardal/Rheolwr Cyffredinol yr Is-adran	31 Mawrth 2016
2.4 Mae angen cynnal adolygiad o'r defnydd o larymau personol i sicrhau bod staff yn cael ac yn defnyddio larymau pan fyddant ar ddyletswydd.	2.4 Mae digon o larymau personol ar gael i'r staff ac fe ddylent fod yn cael eu defnyddio ar y wardiau.	2.4 Yn cael eu defnyddio ar bob ward; i gael ei bwysleisio a'i gynnwys ym mhob un o gyfarfodydd yr uwch-nyrsys.	Rheolwr Ardal; Metron	Cwblhawyd
3. Y Tîm Amlddisgyblaeth				
3.1 Rhaid i bob aelod o'r tîm amlddisgyblaeth deimlo fel rhan o'r tîm a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu o fewn y tîm.	3.1 Ymarfer ymgysylltu â staff i gael ei gwblhau ar gyfer ardal y Gorllewin i ddeall y problemau a'r heriau penodol i waith da gan y tîm amlddisgyblaeth ledled pob arbenigedd. Gweithredu'r defnydd o Offeryn Diagnostig Ymgysylltu'r GIG ac adnodd ymgysylltu â staff GIG Cymru i bob swydd arweinydd yn ardal y Gorllewin.	3.1 Arweinydd Ansawdd a Diogelwch i roi cymorth i'r Rheolwr Ardal i ddechrau rhoi'r adnoddau ar waith.	Rheolwr Ardal	31 Awst 2016
4. Therapiau a gweithgareddau i gleifion				

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
4.1 Mae angen penodi cydgysylltwyr gweithgareddau i sicrhau nad yw darpariaeth therapi galwedigaethol yn cael ei heffeithio mewn ffordd negyddol.	4.1 Mae dau gydgysylltydd gweithgareddau wedi cael eu penodi ac mae gwiriadau cyflogaeth ar y gweill ar eu cyfer. Disgwylir iddynt ddechrau gweithio erbyn mis Ebrill 2016.	4.1 Cwblhawyd	Metron	1 Ebrill 2016
5. Gofal iechyd cyffredinol				
5.1 Rhaid rhoi sylw i'r meysydd a nodir ynghylch y prosiect Eiddilwch, yn arbennig darpariaeth y gwelyau sydd ar gael, staff arbenigol, hyfforddiant staff, a derbyniadau i gleifion iau na 65 mlwydd oed.	5.1.1 Yr is-adran i ystyried datblygu gofal iechyd cymhleth/eiddil naill ai o fewn amgylchedd presennol y wardiau neu a fyddai amgylchedd ward ar wahân yn fwy priodol.	Yn gysylltiedig â 2.2.2. Y Tîm Arwain Is-adrannol i ymchwilio amgylcheddau eraill i gleifion mewnol sy'n gallu darparu gofal diogel, priodol i oedran i gleifion cymhleth ac eiddil.	Cyfarwyddwr Nyrso	31 Mawrth 2016
	5.1.2 Yr is-adran i ailsefydlu'r defnydd o'r llwybr cwympiadau sydd eisoes wedi ei gyflwyno i feysydd clinigol. Bydd yr archwiliad ansawdd misol ar bob ward i gleifion mewnol yn rhoi lefel o sicrwydd gofynnol gyda monitro dyddiol gan Reolwr y Ward.	Bydd yr archwiliad ansawdd misol ar bob ward i gleifion mewnol yn rhoi lefel o sicrwydd gofynnol gyda monitro dyddiol gan Reolwr y Ward. Cadarnhawyd yng nghyfarfod yr uwch-nyrsys ar 11 Chwefror 2016 y bydd y llwybr cwympiadau'n cael ei ddefnyddio ym mhob ward; i gael ei bwysleisio a'i gynnwys ym mhob un o gyfarfodydd yr uwch-nyrsys.	Rheolwr Ardal, Metron	Cwblhawyd
	5.1.3 Yr is-adran i ymchwilio a	Gweler 1.4.	Metron	29 Chwefror 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	chaffael, fel y bo'n briodol, technolegau cynorthwyo ac offer ychwanegol mewn perthynas ag atal cwympiadau, h.y. systemau galw sy'n ddiogel o ran clymiadau a synwryddion/larymau gwely.			
	5.1.4 Yr is-adran i ddechrau monitro lefelau a chymhlethdod y cleifion dan ei gofal ar hyn o bryd. Darparu sicrwydd bod mesurau lliniaru risg priodol ar waith.	Gweler 2.1.1. Adolygiad o aciwtedd i gael ei gynnal.	Rheolwr Ardal; Metron	31 Mawrth 2016
	5.1.5 Rhaid cynnal adolygiad o'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gefnogi a bodloni holl anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl ledled holl ardaloedd cleifion mewnol yr is-adran.	Gweler 2.1.1. I fod yn seiliedig ar ganlyniadau adolygiad aciwtedd.	Cyfarwyddwr Nyrsio	31 Awst 2016
	5.1.6 Cydymffurfiad mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol i gael ei hysbysu yn y Cyfarfod Llywodraethu Ardal.	5.1.6 Anfonir adroddiad at y Cyfarfod Llywodraethu Ardal bob dau fis.	Cydlynnydd Hyfforddiant a Datblygiad Is-adrannol	29 Chwefror 2016
	5.1.7 Mae angen cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant arbenigol fel yr amlygwyd uchod.	Gweler 5.1.5.	Cyfarwyddwr Nyrsio	31 Awst 2016
	5.1.8 Hyfforddiant mewn materion gofal iechyd cymhleth/eiddil i gael ei ddarparu a 'hyrwyddwyr' wardiau i gael eu pennu i arwain ar faterion gofal.	Hyfforddiant – gweler 5.1.5. Hyrwyddo – gofynnwyd i Fetron Iechyd Meddwl Pobl Hŷn yr ardal fod yn bresenoldeb gweladwy ar	Metron; Metron Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Mawrth 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Uned Hergest i gefnogi'r staff ac i weithredu fel hyrwyddwr.		
6. Hyfforddiant				
6.1 Mae angen gweithredu dull safonol ar gyfer yr holl ffeiliau staff, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth yn gyson ar gyfer pob penodiad.	6.1 Dylid cynnal archwiliad o ffeiliau staff mewn perthynas â chanllawiau safonol ynghylch pa wybodaeth y dylid ei dal ar gopi papur a pha wybodaeth y dylid ei chadw ar gofnod staff electronig.	6.1 I ddechrau ym mis Mai 2016.	Rheolwr Ardal	31 Mai 2016
6.2 Mae angen adolygu staffio a recriwtio ar gyfer rhai swyddi allweddol er mwyn sicrhau bod digon o staff yn llenwi swyddi yn yr uned.	6.2 Mae clerc ward wedi cael ei benodi ac mae'n aros am wiriadau cyflogaeth. Disgwylir i'r clerc ward ddechrau gweithio erbyn mis Ebrill 2016.	6.2 Cwblhawyd	Metron	1 Ebrill 2016
6.3 Mae angen gwella morâl y staff, yn arbennig ar ward Taliesin, gyda phwyslais penodol ar yr amserlen ar gyfer datrys problemau a dymeg y staff.	Gweler 3.1. Ymarfer ymgysylltu â staff.	3.1 Arweinydd Ansawdd a Diogelwch i roi cefnogaeth i'r Rheolwr Ardal er mwyn cynnal yr ymarfer.	Rheolwr Ardal	31 Awst 2016
6.4 Rhaid i sesiynau ôl-drafodaeth/gwersi a ddysgwyd fod yn rhan o'r cyfathrebu rhwng staff er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu hatgyfnerthu'n barhaus a bod risgiau'n cael eu lliniaru cyn belled â phosibl. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod llywodraethu'r Gorllewin ac i'r Tîm Arwain Is-adrannol, ond mae angen prosesau rhaeadru i sicrhau bod y	6.1 Mae Cerdyn Sgorio ardal yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys y wybodaeth hon ac yn fodd o raeadru'r wybodaeth trwy'r timau.	6.2 Mae Cerdyn Sgorio ardal yn cael ei ddatblygu.	Rheolwr Dros Dro'r Cynllun Arbedion sy'n Rhyddhau Arian	30 Mehefin 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
wybodaeth yn cael ei rhannu gyda holl staff y tîm.				
7. Llywodraethu				
7.1 Mae angen adolygu'r systemau a phrosesau llywodraethu ac archwilio er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gadarn a digonol yn cael ei chyflwyno i'r bwrdd iechyd.	7.1 Mae prosesau llywodraethu ledled yr is-adran yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd gan yr is-adran Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i weithredu fel canolbwynt ar gyfer yr holl wybodaeth llywodraethu ac archwilio ac i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu'n briodol trwy gydol y sefydliad.	7.1 Mae strwythurau a phrosesau llywodraethu newydd yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn wrth i brosesau gael eu terfynu.	Cyfarwyddwr Nyrsio; Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu	30 Mehefin 2016
7.2 Mae angen rhoi sylw i bob un o'r meysydd a nodwyd, yn benodol: 7.2.1 Strategaeth recriwtio i lenwi'r nifer uchel o swyddi gwag ar gyfer clinigwyr cyfrifol	7.2 1 Cyflwynwyd cynllun recriwtio i'r Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad ym mis Gorffennaf 2015. Bydd Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran yn parhau i geisio cefnogaeth i'r cynllun hwn ar lefel y bwrdd iechyd.	7.2.1 Bydd Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran yn parhau i geisio cefnogaeth i'r cynllun hwn ar lefel y bwrdd iechyd.	Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran	31 Rhagfyr 2016
7.2.2 Strategaeth rheoli gwelyau i reoli'r galw am welyau i gleifion mewnol.	7.2.2 Gweler 2.2.4.	Gweler 2.2.4.	Ymgynghorydd Rhaglen Dros Dro	31 Awst 2016
7.2.3 Mae angen sefydlu amserlen dderbyniol ar gyfer derbyn dodrefn newydd.	7.2.3 Gweler 1.5.1; mae'r dodrefn yn cyrraedd ym mis Chwefror 2016.	7.2.3 Mae gwelyau di-glymiadau newydd wedi cael eu caffael ac maent i fod i gyrraedd ar 17 Chwefror 2016.	Rheolwr Ardal	17 Chwefror 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
7.2.4 Adolygiad o'r problemau ynglŷn â morâl staff ar ward Taliesin a strategaeth i fynd i'r afael â nhw.	7.2.4 Gweler 3.1; ymarfer ymgysylltu â staff.	3.1 Arweinydd Ansawdd a Diogelwch i roi cymorth i'r Rheolwr Ardal i ddechrau rhoi'r adnoddau ar waith.	Rheolwr Ardal	31 Awst 2016
8. Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl				
8.1 Canfu'r adolygiad nad oedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu diwedddaru'n briodol i adlewyrchu cynllunio gofal cleifion mewnol, gan gynnwys asesu risg, arsylwadau, a dogfennau'r Mesur Iechyd Meddwl. Mae angen dull gweithredu cyson tuag at reoli cynlluniau gofal a thriniaeth o'r gymuned ac ar gyfer cleifion mewnol ledled yr is-adran.	8.1.1 Rheolwr Ardal i drafod â chydweithwyr yn ardaloedd Canol a Dwyrain i ddeall sut mae'r broblem hon yn cael ei rheoli mewn mannau eraill.	8.1.1 Rheolwr Ardal i drafod hyn ym mis Mawrth.	Rheolwr Ardal	31 Mawrth 2016
	8.1.2 Canlyniadau'r arolwg hwnnw ar gyfer y rhanbarth cyfan i gael eu trafod gyda'r Pennaeth Nyrsio.	8.1.2 Rheolwr Ardal i gyflwyno canfyddiadau i'r Cyfarwyddwr Nyrsio eu hystyried.	Cyfarwyddwr Nyrsio	30 Ebrill 2016
	8.1.3 Bydd yr is-adran yn parhau i fonitro cynlluniau gofal a thriniaeth fel canran o lwyth achosion y tîm: 90% yw'r safon a bennwyd.	8.1.3 Ar 27 Ionawr 2016, roedd yr is-adran wedi cyflawni 85% o gydymffurfiaid mewn perthynas â'r safon hon.	Arweinydd Mesur Iechyd Meddwl: Rheolwr Cyffredinol	30 Mehefin 2016
9. Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl				
9.1 Ffurflenni absenoldeb Adran 17 i gael eu rheoli'n briodol yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.	9.1 Nodyn atgoffa i'r holl staff nyrsio ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod ffurflenni'n cael eu diwedddaru'n briodol. Monitro gwaith diwedddaru priodol o ffurflenni absenoldeb Adran 17 trwy ddefnyddio'r archwiliad ansawdd misol.	Bydd yr archwiliad ansawdd misol ar gyfer pob claf mewnol yn rhoi lefel o sicrwydd gofynnol gyda monitro dyddiol gan reolwr y ward.	Rheolwr Ardal, Metron	1 Ebrill 2016
9.2 Dylid llofnodi a rhoi dyddiad ar gofnodion arsylwi a'u ffeilio yn	9.2 Nodyn atgoffa i'r holl staff nyrsio ynglŷn â'u cyfrifoldebau o	9.2 Cadarnhawyd yng nghyfarfod yr uwch-	Rheolwr Ardal, Metron	Cwblhawyd

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
nodiadau'r cleifion.	ran sicrhau bod cofnodion arsylwi'n cael eu llofnodi, eu dyddio a'u ffeilio. Monitro ansawdd cofnodion arsylwi trwy ddefnyddio'r archwiliad ansawdd misol.	nyrsys ar 11 Chwefror 2016 y dylid llofnodi a dyddio cofnodion arsylwi cleifion ac y dylid eu ffeilio yn nodiadau'r cleifion; i gael ei bwysleisio a'i gynnwys ym mhob un o gyfarfodydd yr uwch-nyrsys.		
9.3 Mae angen i hawliau'r claf gael eu darllen a dylid cynnig gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol iddynt a dylai bod tystiolaeth o hyn yn y ffeil. Mae prosesau eisoes yn bodoli i sicrhau bod hyn yn digwydd pan fydd statws y claf yn newid; fodd bynnag, nid oes dim systemau ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod cleifion yn cael eu hatgoffa o'u hawliau neu eu bod yn gallu mynd at wasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar gamau perthnasol yn ystod eu gofal.	9.3.1 Nodyn atgoffa i'r holl staff nyrsio ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran atgoffa cleifion o'u hawliau a gwasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, yn arbennig ar adegau pan nodir bod galluedd y claf wedi gwella.	9.3.1 Bydd yr archwiliad ansawdd misol ar gyfer pob claf mewnlol yn rhoi lefel o sicrwydd gofynnol gyda monitro dyddiol gan reolwr y ward.	Rheolwr Ardal, Metron	1 Ebrill 2016
	9.3.2 Addasu rhestr wirio i annog staff nyrsio i atgoffa cleifion o'u hawliau dan Adran 132 y Ddeddf Iechyd Meddwl a mynediad at wasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol yn gyfnodol. Bydd angen i hyn fod yn berthnasol ledled y rhanbarth.	9.3.2 Rheolwr Ardal i drafod hyn gyda Rheolwr a Chydgysylltydd y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rheolwr Ardal; Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	31 Mawrth 2016
9.4 Dylai adroddiadau rheolwyr yr ysbyty gael eu derbyn yn brydlon.	9.4 Cydgysylltwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl i uwchgyfeirio unrhyw oedi o ran adroddiadau rheolwyr ysbyty trwy'r dull cymorth uwchgyfeirio dyddiol i'r Rheolwr Ardal neu Gyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran er mwyn	9.4 Bydd Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn atgoffa'r holl staff sy'n paratoi adroddiadau rheolwyr ysbyty y bydd unrhyw oedi'n cael ei uwchgyfeirio fel mater o	Rheolwr Ardal; Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.	29 Chwefror 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Cynnydd tuag at y cam gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	iddynt weithredu.	frys o hyn ymlaen.		
9.5 Mae angen systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn brydlon ar gyfer meddygon locwm i brofi eu statws Adran 12.2 a'u statws fel clinigydd cymeradwy.	9.5.1 Rhaid hysbysu Cydgysylltydd y Ddeddf Iechyd Meddwl ar unwaith, trwy gyfrwng y Cydgysylltydd Gwasanaethau Clinigol, am unrhyw/bob newid i'r gweithlu meddygol uwch, gan gynnwys enw llawn y locwm arfaethedig, a'r ardal ddaearyddol y bydd yn gweithio ynddi.	9.5.1 Mae'r Cydgysylltydd Gwasanaethau Clinigol yn integreiddio rhybudd ar gyfer Cydgysylltwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y prosesau presennol.	Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl; Rheolwr Busnes	31 Mawrth 2016
	9.5.2 Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran i ysgrifennu at swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i ofyn iddo roi blaenoriaeth i ymateb i geisiadau am gymeradwyaeth.	9.5.2 Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran i ysgrifennu at swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.	Cyfarwyddwr Clinigol yr Is-adran	29 Chwefror 2016